

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review  
Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

# Canllaw Apelio

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru  
Llawr 2, Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 025 5328  
E-bost: MHRT@llyw.cymru

## Amgylchiadau lle gellir apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys

Gellir apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys ar bwynt cyfreithiol unig, fel yr amlinellir yn adran 78A o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. E.e. os:

- nad ydynt wedi cymhwyso'r gyfraith gywir neu wedi dehongli'r gyfraith yn anghywir
- nad ydynt wedi dilyn y gweithdrefnau cywir
- nad oedd ganddo dystiolaeth neu ddigon o dystiolaeth i ategu ei benderfyniad

Os hoffech chi apelio yn erbyn penderfyniad rhaid i chi ofyn i'r Tribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

Cysylltwch â'ch cynrychiolydd cyfreithiol neu [Cyngor ar Bopeth](#) os oes angen help arnoch.

### Apelio i'r Uwch Dribiwnlys

Rhaid i rywun sy'n dymuno apelio wneud cais am ganiatâd yn gyntaf. I wneud cais am ganiatâd i apelio, rhaid yn gyntaf:

- fod yn barti yn yr achos. Mae hyn yn cynnwys yr unigolyn sy'n destun y penderfyniad, yr awdurdod cyfrifol a / neu'r Ysgrifennydd Gwladol a'i gynrychiolwyr cyfreithiol. Nid yw perthnasau agosaf, oni bai eu bod hwy wedi gwneud y cais eu hunain, yn barti yn yr achos;
- cwblhau ffurflen cais am ganiatâd i apelio, sydd ar gael i'w llwytho i lawr ar y wefan hon (gweler MHRTW05) a'i hanfon i swyddfa'r Tribiwnlys naill ai drwy e-bost, ffacs neu ei danfon i swyddfa'r Tribiwnlys; a
- sicrhau bod y ffurflen yn cyrraedd swyddfa'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r Tribiwnlys anfon ei benderfyniad ysgrifenedig i'r unigolyn sy'n gwneud y cais. Ni ellir ystyried ceisiadau a geir ar ôl 28 diwrnod oni bai bod caniatâd wedi'i roi i ymestyn y cyfnod.

Rhaid i gais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys:

- nodi penderfyniad y Tribiwnlys y cyfeirir ato;
- nodi'r gwall honedig neu'r gwall cyfreithiol yn y penderfyniad; a
- datgan pa ganlyniad yr hoffai'r parti sy'n gwneud y cais ei gael

Bydd Cadeirydd y Tribiwnlys yn ystyried eich cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys a bydd yn anfon copi o'r penderfyniad atoch.

Os rhoddir caniatâd i apelio, bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi eich bod wedi cael Caniatâd gyda rhesymau cysylltiedig. Bydd angen i chi fel y ceisydd wedyn gwblhau a chyflwyno **ffurflen UT8** i'r Uwch Dribiwnlys.

Os bydd caniatâd i apelio'n cael ei wrthod bydd y Tribiwnlys yn eich hysbysu gan roi'r rhesymau dros wrthod a bydd hefyd yn eich hysbysu o'ch hawl i wneud cais arall am ganiatâd i apelio yn uniongyrchol i'r Uwch Dribiwnlys, yr amser sydd gennych i wneud eich cais a'r dull ar gyfer gwneud hynny.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.